# Wylfa Decommissioning Site Report

## Site Stakeholder Group Meeting
## 24 September 2020

**Stuart Law**
**Site Director**



## Site Director's Summary (March - September 2020)

On 16 March, Magnox took the proactive decision to pause all non-essential operations across the fleet to protect the workforce and local communities during the Covid-19 pandemic. The decision was managed through our usual approval processes and ratified by our Regulators.

Our business continuity plans were adopted and the company's event management centre was set up to co-ordinate front line support for national infrastructure and local communities by providing resources to NHS Trusts, Local Authorities and resilience forums.


On 20 March, Wylfa site went into operational pause safely, securely and with care for the environment. Our staff were asked staff to work from home, wherever possible, in line with government and devolved administration guidance.

I am very grateful to the security team who continued to protect the site 24/7 during the pause and to the members of the workforce who volunteered to temporarily join this critical team to maintain vigilance and ensure business and regulatory obligations were always met.

Magnox encouraged staff to volunteer in the community, if they were able to, and over 50 stepped up to shop for the elderly and vulnerable, deliver prescriptions, set up foodbanks, make up food boxes, use 3D printers to make PPE and sew scrub bags for NHS workers.

Wylfa staff generously donated money to help purchase an I-pad, DAB radio and two small TVs for the Intensive Care Unit at Ysbyty Gwynedd.


Amlwch Foodbank volunteer


Sue Evans making scrub bags


ICU equipment arrives at Ysbyty Gwynedd

As part of its ongoing commitment to support communities during the coronavirus pandemic, Magnox donated more than 130,000 items of lifesaving personal protective equipment – 21,000 of which came from Wylfa and Trawsfynydd sites. The donated items including disposable respirators, protective suits and gloves, come from Magnox and our contractors and suppliers.

Huw Percy, Anglesey Council Head of Service Highways, Waste & Property commented: "I would like to take this opportunity to thank Magnox for the supply of PPE. The funeral directors on Ynys Môn have each received delivery of 10 pairs of overalls today and we remain in daily contact with funeral directors, care homes, waste collection contractors as well as Council front line staff to ensure that all PPE is prioritised and distributed on a needs basis."

## Restart preparations

A substantial amount of work was carried out across the company to plan for the sites to re-open their work programmes and restart physical work in accordance with the control measures set out in the new Health Protection Guidance Company Standard.

A team of six employees returned to Wylfa at the beginning of June to assess the social distancing measures, one way pedestrian systems, deep cleaning and health and welfare arrangements required to support the workforce to gradually and proportionately return to work safely.










Approximately 25 employees returned to work each week throughout June and Contractors Altrad and Element commenced work in early July to apply the Covid-19 safeguards needed to invite their staff back to site.

Magnox CEO Gwen Parry-Jones OBE visited on 8 July to assess the site's Covid-19 control measures. She left a hand written note addressed to the Wylfa Team: "I just wanted to express my thanks for your dedication and hard work to keep the site safe and secure over the operational pause.

My overall impression is that **I FELT SAFE.** I actually felt safer at the site than I have anywhere else other than home! I am most humbled by your courage and hard work. Thank you."



Gwen Parry-Jones, Magnox CEO

### Return to 'Routine Normal'

The workforce continued to mobilise in a steady, controlled manner throughout July with the aim of everyone working a full working week by the 7 August either on site, working from home or a combination of the two to restart delivering our mission.

The site ONR Inspector visited on 28 July to assess the Covid-19 control measures in place and discuss these with a small group of safety representatives. The visit was a great success resulting in the Inspector being happy with what he had seen and said that he had felt safe as did everyone he spoke to.

Wylfa entered 'Routine Normal' as planned on 7 August with approximately 130 people on site, at work faces, progressing activities, sorting waste and conducting routine maintenance work.

### 2019/20 Achievements

Last financial year was very successful for Wylfa, with eight delivery milestones achieved. A short video has been produced that showcases all that was achieved by staff and the contractor supplied workforce which I'd like to show you.




### Future plans

The site is in the early stages of its decommissioning phase. Unlike other Magnox sites our return to routine normal does not involve restarting intermediate level waste retrieval and processing or recommencing large scale civil projects as these take months of planning and preparation.

During the next two months, a revised lifetime plan will be developed that sets out the work to be delivered in the next two years.  Will we formulate the business cases required for the asset management projects we plan to complete before 31 March 2021.

The site's maintenance schedule is also under review to see where efficiencies can be made and a project group is being set up to implement an 'Electricity at Work' regulations improvement plan.

## Longer term projects

A new Electrical Overlay System is required to change the way electrical power is distributed as a key enabler for the de-plant and demolition projects the site needs to deliver as part of the decommissioning plan.

With a potential two year lead time for the provision of a new supply to the site from Scottish Power, this project will also in parallel prepare the on-site Distribution Infrastructure to accept the supply and distribute around site as required. We are also progressing an opportunity to have a Tri-Party agreement with our neighbours the National Grid who also require a new site supply which will help share the cost of this critical project.



The redundant CO2 plant will be demolished which will create a large lay down area to support other civil projects.



Further asbestos remediation work will be carried out in the reactor buildings and we will characterise the post operational radioactive waste to be retrieved, processed and stored in future years.

## Safety statistics

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
Days away case rate (DACR): 0.00
No of days since a lost time accident: 792 (08.09.20)

## Workforce

There are currently 160 Magnox employees at Wylfa.
The Magnox Support Office staff who have a desk on site will continue to work from home for the foreseeable future.

## Maentwrog Operations

Rainfall between 1 March and 31 August was 895mm.


Renewable electricity generation during the same period was 22.7 gigawatt hours compared to a target of 17 gigawatt hours.

## Maentwrog Outage


The annual four week operational outage was postponed from June to August this year due to Covid-19 work restrictions.

The inspection and maintenance work conducted focused on the two concrete tunnels and three pipelines, built in 1828, that are items of the power station's operating system normally submerged in water during operational periods.  Planned care and maintenance is required to retain these items in service until at least 2084 when the site is currently scheduled to be decommissioned.

Mona Lifting, Llangefni, carried out repairs on the Low Pressure Pipeline (LPP) by welding curved plates on the internal surface of the pipeline to strengthen areas where studies have identified potential areas of weakness.



Mona Lifting preparing LPP work




Inside the low pressure tunnel 1927

Two half a kilometre long and nine feet in diameter tunnels were mined through two hillsides in the 1920's. When their basic shape was created, wooden form work and shuttering was built to line the tunnels with a concrete cast.

This year's outage inspections discovered voids between the lining and the mined rock which were subsequently grouted and filled by Dyer and Butler, Exeter, with two thirds of the repair work provided by the local supply chain.

Scaffold access was provided by Altrad from Wylfa site.


The outage works were overseen by site staff with regular visits from peers and auditors including Mr Paul Winkle, Magnox's new Chief Operating Officer.

The weather this August was not favourable, causing the reservoir level to rise and without the generating plant to control the levels, the reservoir over-spilled on the 28/08/20.

Site staff increased their efforts to return the generating plant early, Unit 2 was returned to service 02/08/20 with Unit 1 returning to service on 03/08/20. Reservoir levels were reduced to normal on 03/08/20.

### Wylfa on BBC One Wales

Last August, the Hidden Wales film crew visited site to record broadcaster Will Millard and Medwyn Williams, Wylfa Integration Manager, delving into the site's history and seeing defuelling operations in action. Please tune in to see this very special behind and above the scenes episode of Series 2 on Friday 9 October at 7.30pm.






**For more information and the latest news from Wylfa, visit:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

# Adroddiad ynglŷn â Datgomisiynu Safle'r Wylfa

## Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
## 24ain Medi 2020

## Stuart Law
## Cyfarwyddwr y Safle



## Crynodeb Cyfarwyddwr y Safle (Mawrth – Medi 2020)

Ar 16eg Mawrth, daeth *Magnox* i'r penderfyniad rhagweithiol i roi saib i'r holl weithrediadau dianghenraid ar draws yr holl safleoedd er mwyn diogelu'r gweithlu a'r cymunedau lleol yn ystod pandemig y Coronafeirws. Roedd y penderfyniad yn cael ei reoli drwy ein prosesau cymeradwyo arferol a chafodd ei gadarnhau gan ein Rheoleiddwyr.

Mabwysiadwyd ein cynlluniau parhad busnes a sefydlwyd canolfan rheoli digwyddiadau'r cwmni er mwyn cydlynu cefnogaeth y rheng flaen ar gyfer isadeiledd cenedlaethol a chymunedau lleol drwy ddarparu adnoddau i Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Lleol a fforymau gwydnwch.

Ar 20fed Mawrth, aeth safle'r Wylfa i saib gweithredol yn ddiogel a chyda gofal am yr amgylchedd. Gofynnwyd i'n staff weithio o'u cartrefi, lle bynnag yr oedd yn bosibl, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Rydw i'n ddiolchgar iawn i'r tîm diogelwch a barhaodd i ddiogelu'r safle 24/7 yn ystod y saib ac i aelodau o'r gweithlu a wirfoddolodd i ymuno â'r tîm allweddol hwn dros dro, er mwyn cynnal gwyliadwriaeth a sicrhau bod rhwymedigaethau busnes a rhwymedigaethau rheoleiddiol yn cael eu cwrdd bob amser.

Anogodd *Magnox* i staff wirfoddoli yn y gymuned, os oedden nhw'n gallu, a daeth dros 50 ymlaen i siopa ar gyfer yr henoed a'r bregus, danfon presgripsiynau, sefydlu banciau bwyd, paratoi blychau bwyd, defnyddio argraffyddion 3D i wneud PPE a gwnïo bagiau sgrybs ar gyfer gweithwyr y GIG.

Derbyniwyd rhoddion hael gan staff yr Wylfa er mwyn helpu prynu I-Pad, radio DAB a dau o setiau teledu bychain ar gyfer Uned Gofal Dwys Ysbyty Gwynedd.










Fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i gefnogi cymunedau yn ystod pandemig y coronafeirws, rhoddodd *Magnox* fwy na 130,000 eitem o gyfarpar diogelu personol sy'n achub bywydau – a daeth 21,000 ohonyn nhw o safleoedd yr Wylfa a Thrawsfynydd. Roedd yr eitemau yn cynnwys anadlyddion untro, dillad diogelwch a menig, a roddwyd gan *Magnox* a'n contractwyr a'n cyflenwyr.

Nododd Huw Percy, Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Cyngor Môn: "Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i *Magnox* am gyflenwi'r PPE. Mae'r holl drefnwyr angladdau ar Ynys Môn wedi derbyn 10 pâr o oferôls heddiw ac rydym yn parhau mewn cysylltiad dyddiol â threfnwyr angladdau, cartrefi gofal, contractwyr casglu gwastraff yn ogystal â staff rheng flaen y Cyngor er mwyn sicrhau bod yr holl PPE yn cael ei flaenoriaethu a'i ddosbarthu ar sail anghenion."

### Paratoadau ar gyfer ailddechrau

Gwnaed gwaith sylweddol drwy'r cwmni er mwyn cynllunio i'r safleoedd gael ailagor eu rhaglenni gwaith ac ailddechrau'r gwaith ffisegol yn unol â'r mesurau rheoli a amlinellwyd yn Safon newydd y Cwmni ar gyfer Canllawiau Diogelu Iechyd.

Dychwelodd tîm o chwe gweithiwr i'r Wylfa ar ddechrau mis Mehefin er mwyn asesu'r mesurau pellter cymdeithasol, y systemau cerdded un ffordd, glanhau yn drylwyr a'r trefniadau iechyd a lles sydd eu hangen i gefnogi'r gweithlu i ddychwelyd yn raddol ac yn gymesur i'r gwaith yn ddiogel.












Dychwelodd oddeutu 25 o weithwyr i'r gwaith bob wythnos drwy fis Mehefin a dechreuodd y contractwyr *Altrad* ac *Element* ar eu gwaith yn gynnar ym mis Gorffennaf i weithredu'r amddiffyniadau Covid-19 a oedd eu hangen i wahodd eu staff yn ôl i'r safle.

Ymwelodd PSG *Magnox*, Gwen Parry-Jones OBE, â'r safle ar 8fed Gorffennaf er mwyn asesu mesurau rheoli Covid-19 y safle. Gadawodd nodyn ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at dîm yr Wylfa: "Dim ond eisiau mynegi fy niolchiadau am eich ymroddiad a'ch gwaith caled i gadw'r safle yn ddiogel yn ystod y saib gweithredol.

Yr argraff gyffredinol a gefais oedd fy mod yn **TEIMLO'N DDIOGEL**. Roeddwn i mewn gwirionedd yn teimlo'n fwy diogel ar y safle nag yn unman arall ar wahân i'm cartref! Rydw i'n teimlo'n ddiymhongar iawn gyda'ch dewrder a'ch gwaith caled. Diolch yn fawr."




Gwen Parry-Jones, PSG *Magnox*

## Dychwelyd i'r 'Normal Arferol'

Parhaodd y gweithlu i baratoi mewn ffordd bwyllog, reoledig drwy gydol mis Gorffennaf, gyda'r nod i bawb weithio wythnos waith lawn erbyn 7fed Awst, un ai ar y safle, neu drwy weithio o'u cartrefi neu gyfuniad o'r ddau er mwyn ailddechrau cyflawni ein cenhadaeth.

Ymwelodd Arolygydd SRN y safle ar 28ain Gorffennaf er mwyn asesu'r mesurau sy'n bodoli ynglŷn â rheoli Covid-19 a thrafod y rhain gyda grŵp bychan o gynrychiolwyr diogelwch.  Roedd yr ymweliad yn llwyddiant mawr ac roedd yr Arolygydd yn fodlon â beth yr oedd wedi'i weld a dywedodd ei fod wedi teimlo'n ddiogel yn union fel yr oedd pawb arall a siaradodd ef â nhw.

Dechreuodd Wylfa ar y 'Normal Arferol' ar 7fed Awst, gydag oddeutu 130 o bobl ar y safle, yn eu gwaith, gan symud gweithgareddau ymlaen, didoli gwastraff a gwneud gwaith cynnal a chadw arferol.

## Cyflawniadau 2019/2020

Roedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn un lwyddiannus iawn i'r Wylfa, gan gyflawni wyth o gerrig milltir.  Cynhyrchwyd fideo byr sy'n dangos popeth a gyflawnwyd gan staff a'r gweithlu a gyflenwir gan gontractwyr.  Hoffwn ddangos y fideo i chi.




## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r safle yn y camau cynnar o'i gyfnod datgomisiynu.  Yn wahanol i safleoedd eraill *Magnox*, nid yw ein dychweliad i'r normal arferol yn cynnwys ailddechrau casglu gwastraff lefel ganolraddol a phrosesu nac ailgychwyn prosiectau sifil ar raddfa fawr, oherwydd y mae'r rhain yn cymryd misoedd o waith cynllunio a pharatoi.

Yn ystod y ddeufis nesaf, bydd cynllun oes diwygiedig yn cael ei ddatblygu a fydd yn amlinellu'r gwaith sydd i'w gyflawni yn y ddwy flynedd nesaf.  Byddwn yn llunio'r achosion busnes sydd eu hangen ar gyfer y prosiectau rheoli asedau yr ydym yn cynllunio i'w cwblhau cyn 31ain Mawrth 2021.

Mae amserlen cynnal a chadw'r safle hefyd o dan arolwg, er mwyn gweld pa arbedion effeithlonrwydd a ellir eu gwneud ac mae grŵp prosiect yn cael ei sefydlu i weithredu'r cynllun gwella rheoliadau 'Trydan yn y Gwaith'.

### Prosiectau'r Tymor Hirach

Mae angen System Troshaenu Trydanol newydd i newid y ffordd y mae ynni trydanol yn cael ei ddosbarthu fel galluogwr allweddol ar gyfer y gwaith datgomisiynu a'r prosiectau dymchwel y mae'r safle angen eu cyflawni fel rhan o'r cynllun datgomisiynu.

Gyda dwy flynedd o amser arwain ar gyfer darparu cyflenwad newydd i'r safle gan *Scottish Power*, bydd y prosiect hwn hefyd ar yr un pryd yn paratoi'r Isadeiledd Dosbarthu ar y safle i dderbyn y cyflenwad a'i ddosbarthu o gwmpas y safle fel y bo'r angen.  Yn ogystal, rydym yn gwneud cynnydd gyda chyfle i gael cytundeb Tridarn gyda'n cymdogion y Grid Cenedlaethol, sydd hefyd angen cyflenwad newydd ar y safle a fydd yn helpu rhannu cost y prosiect pwysig hwn.



Bydd rhan segur o'r safle sy'n ymdrin â $CO_2$ yn cael ei dymchwel gan greu ardal fawr ar gyfer adeiladu prosiectau sifil eraill.



Bydd mwy o waith adferol ynglŷn ag asbestos yn cael ei wneud yn adeiladau'r adweithyddion a byddwn yn disgrifio'r gwastraff ymbelydrol ôl-weithredol er mwyn iddo gael ei gasglu, ei brosesu a'i storio yn y dyfodol.

### Ystadegau Diogelwch
Cyfanswm y nifer o ddigwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
Nifer yr achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00
Nifer y dyddiau ers damwain lle collwyd amser: 792 (08.09.20)

### Gweithlu
Ar hyn o bryd, mae 160 o weithwyr *Magnox* yn yr Wylfa.
Bydd staff Swyddfa Cefnogi *Magnox* sydd â desg ar y safle yn parhau i weithio o'u cartrefi hyd y gellir rhagweld.

### Gwaith Maentwrog
Rhwng 1af Mawrth a 31ain Awst bu 895mm o lawiad.


Yn ystod yr un cyfnod, cynhyrchwyd 22.7 gigawat-awr o drydan adnewyddadwy o'i gymharu â tharged o 17 gigawat-awr.

### Diffoddiad Maentwrog
Gohiriwyd y diffoddiad gweithredol pedair wythnos blynyddol o fis Mehefin tan fis Awst eleni oherwydd cyfyngiadau gwaith Covid-19.

Roedd y gwaith arolygu a'r gwaith cynnal a chadw a wnaed yn canolbwyntio ar y ddau dwnnel concrid a thair o biblinellau a gafodd eu hadeiladu yn 1928. Mae'r rhain yn rhan o system weithredu'r orsaf bŵer sydd fel arfer o dan ddŵr yn ystod cyfnodau gweithredol. Mae angen cynllunio ar gyfer gofalu a chynnal a chadw er mwyn cadw'r eitemau hyn mewn gwasanaeth tan o leiaf 2084 pan gynllunnir ar hyn o bryd y bydd y safle yn cael ei ddatgomisiynu.

Bu *Mona Lifting*, Llangefni yn atgyweirio'r Biblinell Pwysedd Isel (PPI) drwy weldio platiau crymion ar arwyneb mewnol y biblinell er mwyn cryfhau'r mannau lle mae astudiaethau wedi nodi mannau gwan posibl.




Cloddiwyd dau dwnnel hanner cilometr o hyd a diamedr o naw troedfedd drwy ddau fryn yn ystod y 1920au. Pan grëwyd eu siâp sylfaenol, adeiladwyd gwaith ffurf ac estyll pren er mwyn leinio'r twneli gyda chast concrid.

Roedd yr archwiliadau diffoddiad eleni wedi darganfod gwagleoedd rhwng y leinin a'r graig a gloddiwyd a gafodd eu growtio a'u llenwi wedyn gan *Dyer and Butler*, Exeter,

gyda dwy ran o dair o’r gwaith atgyweirio yn cael ei ddarparu gan y gadwyn gyflenwi leol.

Cafwyd mynediad gyda sgaffaldiau a ddarparwyd gan *Altrad* o safle’r Wylfa.


Goruchwyliwyd gwaith y diffoddiad gan staff y safle, gydag ymweliadau rheolaidd gan gymheiriaid ac archwilwyr, yn cynnwys Mr Paul Winkle, Prif Swyddog Gweithredol newydd *Magnox*.

Nid oedd y tywydd yn ystod mis Awst eleni yn ffafriol, gan achosi lefel y gronfa i godi a heb yr orsaf gynhyrchu i reoli’r lefelau, gorlifodd y gronfa ar 20/08/20.

Bu mwy o ymdrechion gan staff y safle i ddychwelyd yr orsaf gynhyrchu yn gynnar. Dychwelodd Uned 2 i wasanaethu ar 02/08/20, gydag Uned 1 yn dychwelyd i wasanaethu ar 03/08/20.  Gostyngodd lefelau’r gronfa i’r lefelau normal ar 03/08/20.

### Wylfa ar BBC One Wales

Mis Awst y llynedd, cafwyd ymweliad gan griw ffilmio *Hidden Wales* i recordio’r darlledwr Will Millard a Medwyn Williams, Rheolwr Integreiddio’r Wylfa, yn twrio i hanes y safle a gweld sut mae gweithrediadau gwaredu tanwydd yn gweithio. Cofiwch wylio’r bennod arbennig hon o’r ail gyfres, pan gewch chi weld y tu ôl ac uwchben i’r llenni ar ddydd Gwener, 9fed Hydref am 7.30pm.






**Er mwyn cael mwy o wybodaeth ynghyd â’r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites